

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2023

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: CYDYMFFURFIO /GWEITHREDU / GWYBODAETH**

**CATEGORI: POLISI**

**TEITL: FFRAMWAITH Y GIG AR GYFER YMCHWIL A DATBLYGU – Mae Ymchwil yn Bwysig – Sut olwg sydd ar ragoriaeth yn GIG Cymru**

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** Dan arolwg cyson

**I'w weithredu gan:**

**Camau i'w cymryd erbyn:** Ar unwaith

Prif Weithredwyr, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr ac Arweinwyr Ymchwil a Datblygu, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddorau Iechyd, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Cyllid, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Cynllunio, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Profiad Cleifion a Gofalwyr, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Ansawdd a Diogelwch, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Hyrwyddwyr Bwrdd Annibynnol ar gyfer Ymchwil a Datblygu, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Prif Fferyllwyr, Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd  
Addysg a Gwella Iechyd Cymru  
Iechyd a Gofal Digidol Cymru  
Gofal Cymdeithasol Cymru  
Meddygon teulu  
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

**Anfonir gan:**

**Enw(au) cyswllt yn Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Carys Thomas, Pennaeth yr Is-adran Polisi, Ymchwil a Datblygu

Violina Sarma, Pennaeth Amgylchedd Ymchwil y GIG a Gofal Cymdeithasol

E-bost - [hssrd@gov.wales](mailto:hssrd@gov.wales)

**Amgaeadau: Atodiad 1: Gellir gweld copi o Fframwaith y GIG ar gyfer Ymchwil a Datblygu ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

[https://ymchwiliiechydagofalcymru.org/sites/default/files/2023-07/NHS\\_RD\\_Framework-FINAL\\_cy.pdf](https://ymchwiliiechydagofalcymru.org/sites/default/files/2023-07/NHS_RD_Framework-FINAL_cy.pdf)

Annwyl gydweithwyr

Mae gwella gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru, gan ddefnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth o weithredu, yn hanfodol i wella ansawdd gofal a rhoi'r cyhoedd wrth galon popeth. Mae'n dra chyfarwydd i lawer bod ymchwil yn gwneud gwir wahaniaeth i wella deilliannau iechyd ac i fywydau cleifion a phobl yn ein cymunedau.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Ymchwil a Datblygu (Y&D) newydd, mewn ymdrech i wreiddio ac integreiddio ymchwil ym mhob agwedd ar wasanaethau iechyd a gofal yn GIG Cymru. Mae'n cael ei gyhoeddi fel canllaw cenedlaethol cyson i sefydliadau'r GIG a lle y mae disgwyl i'w nodweddion allweddol ddod yn rhan graidd o ddiwylliant sefydliadol.

Mae ymchwil yn gydran sylfaenol o iechyd a gofal bob dydd ac mae'n hanfodol i ddatblygu pob agwedd ar GIG Cymru. Mae'r ddogfen hon, felly, yn berthnasol i bawb sydd a wnelo â dylunio, rheoli a chyflenwi gofal iechyd yn GIG Cymru, gan gynnwys byrddau'r GIG a phob gweithredwr, y rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth, arweinwyr clinigol, arweinwyr proffesiynol, penaethiaid gwasanaethau, rheolwyr gweithredol yn ogystal â staff ymchwil penodol fel Cyfarwyddwyr ac arweinwyr Y&D, rheolwyr ymchwil a'r gweithlu ymchwil.


Er mwyn ysgogi rhagoriaeth, rydw i'n disgwyl i sefydliadau'r GIG fod â diwylliant positif o welliant parhaus trwy ymchwil ac mae hyn wedi'i alinio â'r Ddyletswydd Ansawdd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020.

Rydw i'n disgwyl i sefydliadau'r GIG ddefnyddio'r fframwaith i ddatblygu cynlluniau cadarn ar gyfer y dyfodol, gan gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, er enghraifft, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, darparwyr addysg uwch, asiantaethau ac arianwyr ymchwil, sefydliadau'r trydydd sector, cwmnïau gwyddor bywyd a'r cyhoedd.

Fe hoffwn i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb fu a wnelo â datblygu'r fframwaith cynhwysfawr hwn. Gyda'n gilydd, mae gennym gyfle i wella pethau trwy fynd ati i sicrhau bod ymchwil yn cael ei gwreiddio mewn gwasanaethau gofal iechyd craidd, ac i wneud y GIG yng Nghymru yn rhywle lle y mae ymchwil yn bwysig.

Rydw i'n ddiolchgar i chi am y rhan y byddwch chi'n ei chwarae yn hyn o beth.

Yr eiddoch yn gywir



Judith Paget  
Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif  
Weithredwr GIG Cymru